Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# NEWYDDION

## Cynnwys


- Y Comisiwn yn adrodd ar ei waith ac yn croesawu'r Prif Weinidog
- Rhwymedigaethau adrodd newydd i HMRC yn effeithio ar elusennau sy'n rhoi grantiau
- Rhybuddion rheoleiddiol newydd ar gyfer elusennau codi arian
- Dathlu elusennau lleol ac ymddiriedolwyr
- Ydy'ch manylion cyswllt yn gyfredol?
- Llunio dyfodol ein gwasanaethau digidol
- Cadw golwg ar eich cyllid yn 2017
- Ydy cydweithredu neu uno yn ffordd ymlaen i'ch elusen chi?
- Dysgu o adroddiadau achos y Comisiwn
- Rhoi'n fwy diogel i elusennau
- Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli yn y sector elusennol
- Ymgynghori ar yr wybodaeth i'w chasglu ar ffurflen flynyddol 2017


Newyddion y CE 56 - Chwefror 2017

## Y Comisiwn yn adrodd ar ei waith ac yn croesawu'r Prif Weinidog

Ar 9 Ionawr, cynhaliodd y Comisiwn ei gyfarfod cyhoeddus blynyddol yn y Gymdeithas Frenhinol. Roedd un gwestai arbennig iawn wedi ymuno â ni ar yr achlysur hwn, sef y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Theresa May AS, a draddododd y prif anerchiad.

Mae'r cyfarfod cyhoeddus blynyddol yn gyfle i'r Comisiwn gyflwyno llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen i'r dyfodol. Roeddem yn falch i sôn am y cynnydd sylweddol a wnaethom o ran cyflawni ein strategaeth i fod yn rheoleiddiwr sy'n ymgysylltu a seiliedig ar risg effeithiol. Roedd yn gyfle hefyd i gyhoeddi ein **datganiad diwygiedig o ddull rheoleiddio**.

Dywedodd Eryl Besse, Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Elusennau:

*"Mae llywodraethu da ac arweinyddiaeth gryf o fewn elusennau yn hanfodol i sicrhau hyder y cyhoedd; rhan bwysig o hyn yw cynnig modd i ymddiriedolwyr gyflawni eu rolau mewn modd effeithiol. Heddiw rydym wedi cyhoeddi datganiad wedi'i ddiweddaru o ddull rheoleiddio i roi mwy o bwyslais ar ein gwaith galluogi a'r cymorth a rown i ymddiriedolwyr."*

Ymunodd y Prif Weinidog â'r Comisiwn yn ystod ail hanner y cyfarfod i draddodi'r brif araith. Mae copi llawn o'r araith ar gael ar **GOV.UK**.

Dywedodd William Shawcross, Cadeirydd y Comisiwn Elusennau:

*"Roeddwn i'n falch iawn i groesawu'r Prif Weinidog fel ein gwestai ac mae'n fraint ei bod hi wedi dewis cyfarfod cyhoeddus y Comisiwn Elusennau i roi araith mor arwyddocaol. Ni allai fod arwydd gwell o bwysigrwydd elusennau i'r wlad hon, a'n cyfrifoldeb ni fel rheoleiddiwr."*

Mae cyflwyniad y Comisiwn, anerchiad agoriadol William Shawcross a chrynodeb o'r diwrnod i'w gweld ar **GOV.UK**.

## Rhwymedigaethau adrodd newydd i HMRC yn effeithio ar elusennau sy'n rhoi grantiau

Mae'n rhaid i elusennau sy'n cael mwy na hanner o'u hincwm o fuddsoddiadau ariannol mewn unrhyw flwyddyn wirio a oes rhwymedigaeth arnynt i roi manylion ynghylch pwy sydd wedi derbyn eu grant i Gyllid a Thollau EM (HMRC). Os daw mwy na hanner incwm eich elusen o fuddsoddiadau ariannol ac mae'r buddsoddiadau hynny'n cael eu rheoli i chi **yn gyfan gwbl neu'n rhannol** gan frocer, rheolwr cronfa, cynghorydd ariannol annibynnol neu reolwr cyfoeth, mae'n bosib y bydd rhaid i chi gynnal gwiriadau ar bwy sydd wedi derbyn eich grant a llunio adroddiad i HMRC i fodloni eich rhwymedigaethau o dan y 'Safon Adrodd Cyffredin'.

Mae'r Safon Adrodd Cyffredin yn gytundeb byd-eang i fynd i'r afael â chynlluniau osgoi talu treth alltraeth trwy rannu gwybodaeth ariannol rhwng gweinyddiaethau treth. I gael rhagor o wybodaeth am y Safon Adrodd Cyffredin a'r gofynion adrodd, trowch at y **cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan HMRC**.

Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau? Gwnewch yn siŵr eich bod yn ein dilyn ni ar **Twitter @ChtyCommission**, **LinkedIn**, a chofrestrwch i'n **blog**

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Rhybuddion rheoleiddiol newydd ar gyfer elusennau codi arian

Yn ddiweddar cyhoeddodd y Comisiwn **rybudd i hyrwyddo rheolau codi arian newydd y Ddeddf Elusennau** a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2016. Mae'r rheolau newydd yn effeithio ar:

- adroddiadau blynyddol ymddiriedolwyr elusennau mwy sy'n codi arian o'r cyhoedd
- y cytundebau y mae'n rhaid iddynt fod yn eu lle os yw codwyr arian trydydd parti yn codi arian ar gyfer elusennau

Bydd y newidiadau yn helpu elusennau i ddangos eu hymrwymiad at ddiogelu rhoddwyr a'r cyhoedd rhag arferion codi arian gwael. Bydd y gyfraith newydd hefyd yn helpu i sicrhau bod safonau codi arian yn ffurfio rhan o'r cytundebau rhwng elusennau ac unrhyw **gyfranogwyr masnachol** neu **godwyr arian proffesiynol** y maent yn gweithio â hwy. Cewch wybod yma **sut mae'ch elusen chi wedi'i heffeithio gan y darpariaethau newydd**, a phryd y mae angen cydymffurfio â nhw. Gallwch droi at **Adroddiadau a chyfrifon elusennau: yr hanfodion (CC15d)** sydd wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gofynion newydd.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi rhybuddion ar y cyd â'r Rheoleiddiwr Codi Arian ynghylch pwysigrwydd **dilyn y gyfraith diogelu data** wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol rhoddwyr, a chydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol fel ymddiriedolwyr pan fyddant yn **gweithio gyda chodwyr arian trydydd parti** fel y nodir yng nghyfarwyddyd y Comisiwn **Codi arian gan elusennau: canllaw i ddyletswyddau ymddiriedolwyr (CC20)**.

## Dathlu elusennau lleol ac ymddiriedolwyr

Cafodd Wythnos yr Ymddiriedolwyr 2016 ei chynnal rhwng 7 i 13 Tachwedd. Sefydlwyd y digwyddiad blynyddol hwn i ddathlu'r gwaith arbennig y mae ymddiriedolwyr yn ei wneud yn y DU, ac nid oedd y flwyddyn hon yn wahanol, gyda'r thema 'elusennau cryfach trwy arweinyddiaeth dda' a bron 100 o ddigwyddiadau wedi'u rhestru ar **Trusteesweek.org** ar gyfer ymddiriedolwyr presennol yn ogystal ag unrhyw un sy'n ystyried bod yn ymddiriedolwr. Cynhaliwyd gweminar cyntaf y Comisiwn yn ystod yr wythnos ac mae ar gael bellach i'w wylio ar **GOV.UK** os nad ydych wedi'i weld.

Rydym wedi bod yn cefnogi **Diwrnod Elusennau Lleol** hefyd, menter newydd y llywodraeth a chafodd ei chynnal ar 16 Rhagfyr 2016 i helpu elusennau bach, lleol a grwpiau cymunedol i ffynnu a dangos y gwaith gwych a wnânt yn eu hardaloedd. Mae elusennau lleol bach yn ffurfio cyfran fawr o'r sector gwirfoddol ac roedd y digwyddiad hwn yn ffordd wych o atgoffa elusennau bach ble y gallant gael cymorth, megis **Foundation for Social Improvement**, **Small Charities Coalition**, a **Rhaglen Cyllid Elusennau CFG.**

Diolch i bawb a gefnogodd y ddau ddigwyddiad. Caiff Wythnos yr Ymddiriedolwyr y flwyddyn nesaf ei chynnal rhwng **13-17 Tachwedd**, felly rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur nawr!

### Ydy'ch manylion cyswllt yn gyfredol?

Cymrwch eiliad i fewngofnodi i'n **porthol ar-lein** a gwneud yn siŵr bod y manylion cyswllt cywir gennym ar gyfer cysylltiadau a enwir eich elusen, gan gynnwys cyfeiriad e-bost cyfoes, er mwyn i ni allu cysylltu â chi'n gyflym pan fydd angen.

## Llunio dyfodol ein gwasanaethau digidol

Ym mis Rhagfyr lansiwyd ein **harolwg digidol cwsmeriaid** a gafodd ei greu i'n helpu i nodi ffyrdd o wella ein hamrywiaeth o wasanaethau digidol a'u gwneud nhw'n haws i'w defnyddio. Bydd gwella ein gwasanaethau digidol hefyd yn cynnig modd i ni ddiogelu cywirdeb y **gofrestr elusennau** trwy ddangos gwybodaeth allweddol am elusennau mewn ffordd glir a syml.

Gofynnodd yr arolwg pryd y byddech am i ni gysylltu â chi ac ym mha ffordd, yn ogystal â'ch blaenoriaethau wrth gysylltu â'r Comisiwn. Bu'r arolwg yn rhedeg am 6 wythnos, gan gau ar 18 Ionawr, derbyniwyd 206 o ymatebion a chaiff eu dadansoddi a'u defnyddio i lywio ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau digidol yn y dyfodol.

Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella ein gwasanaethau digidol trwy gyfrwng gweithdai a phrofi gan ddefnyddwyr. Os hoffech chi gymryd rhan e-bostiwch eich manylion at **usability@charitycommission.gsi.gov.uk**.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Cadw golwg ar eich cyllid yn 2017

Mae dyletswydd gyfreithiol gan ymddiriedolwyr i ofalu am arian eu helusen ac asedau eraill. Mae angen iddynt ddeall a chadw golwg ar incwm a gwariant eu helusen er mwyn sylwi ar unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl i'w hatal rhag effeithio ar lwyddiant yr elusen. Dyma rai cynghorion allweddol o ganllawiau eang y Comisiwn ar faterion ariannol.

Dylai elusennau:

- allu dweud yn gynnar yn y broses pan nad yw'r elusen yn hyfyw mwyach a chynllunio ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd i fuddiolwyr, staff ac asedau
- datblygu polisi ar gronfeydd wrth gefn sy'n sefydlu lefel y cronfeydd wrth gefn sy'n briodol i'r elusen ac sy'n esbonio'n glir i'w rhanddeiliaid pam bod angen dal y cronfeydd wrth gefn hyn
- recriwtio ymddiriedolwyr sydd â'r amser, y sgiliau a'r profiadau i ddeall eu materion ariannol a chynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol
- cynnal cyfarfodydd ymddiriedolwyr rheolaidd i gadw golwg ar incwm a gwariant
- rhoi rheolaethau ariannol mewnol yn eu lle i sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei awdurdodi'n briodol
- adolygu ffynonellau incwm - oes unrhyw gyfleoedd newydd?
- adolygu'n gyson gwariant a gynllunnir ac a gynigir - allan nhw wneud unrhyw beth yn well neu roi'r gorau i wneud rhywbeth yn gyfan gwbl?
- adolygu eu polisi risg a rheoli risg yn gyson
- ceisio cyngor proffesiynol cyn cytuno i wneud ymrwymiadau ariannol sylweddol yn y dyfodol

Mae ein dogfen **15 cwestiwn** yn helpu ymddiriedolwyr i ystyried y meysydd hanfodol hyn ac yn eu cyfeirio at wybodaeth berthnasol arall. Rydym yn adolygu ein canllawiau ariannol hefyd i sicrhau eu bod yn hygyrch ac o'r defnydd mwyaf i ymddiriedolwyr.

## Ydy cydweithredu neu uno yn ffordd ymlaen i'ch elusen chi?

Mae'r Comisiwn yn annog ymddiriedolwyr i adolygu'n rheolaidd a allai unrhyw weithgareddau eu helusen gael eu rhedeg yn fwy effeithiol naill ai trwy weithio gydag eraill neu drwy uno'n llawn ag elusen arall. Wedi'i reoli'n dda, gall y naill neu'r llall helpu adnoddau elusennau i gael mwy o effaith, ond mae'n bwysig deall beth sydd ei angen i'w gwneud nhw'n llwyddiannus. Cewch **ganllawiau manwl** ar GOV.UK am hyn, ond mae rhai o'r ffactorau hanfodol i'w hystyried yn cynnwys:

### I sicrhau cydweithredu llwyddiannus

1. Eglurwch fod unrhyw gydweithredu er lles buddiolwyr eich elusen.
2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn hapus bod y cydweithredu yn hyrwyddo amcanion eich elusen.
3. Dylai fod cytundeb yn ei le sy'n egluro amcanion, prosesau, rolau a chyfrifoldebau yn eglur.
4. Rhowch sylw i gyfathrebu a gwnewch yn siŵr bod pob rhanddeiliad yn deall sut a pham y dylai'ch elusen gydweithredu.
5. Gwnewch yn siŵr nad yw annibyniaeth eich elusen yn cael ei chyfaddawdu.

### I sicrhau uno llwyddiannus

1. Dylai'r uno fod er lles gorau buddiolwyr yr elusen a dylai ymddiriedolwyr fod yn gytûn wrth gredu mai uno yw'r ffordd orau ymlaen.
2. Dylai'r elusennau sy'n rhan o'r uno gael amcanion, diwylliant a gwerthoedd tebyg.
3. Mae cyfathrebu effeithiol â phob rhanddeiliad o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol - dylai'r prosesau a'r canlyniadau fod yn glir i bawb.
4. Nodwch y rolau a'r cyfrifoldebau allweddol yn y broses uno.
5. Cyfathrebwch a thrafodwch mewn ffordd sy'n adlewyrchu buddiannau pob parti.

## Dysgu o adroddiadau achos y Comisiwn

Mae'r mwyafrif helaeth o bryderon a welir mewn elusennau yn cael sylw mewn achosion cydymffurfio gweithredol, sy'n ffurfio dros 90% o'n gwaith achos. Nid yw'r achosion hyn yn ymchwiliadau ffurfiol, ond maent yn ceisio sicrhau bod ymddiriedolwyr yn rhoi sylw i unrhyw fethiannau a gwendidau yn rheolaeth eu helusennau. Os yw er lles y cyhoedd i wneud hynny ac os ydym yn canfod gwersi defnyddiol ar gyfer ymddiriedolwyr eraill, cyhoeddwn adroddiadau ar yr achosion hyn gan roi manylion am ein casgliadau, effaith ein gweithredu, a'r gwersi i elusennau eraill. Ewch i **GOV.UK** i ddarllen rhagor ac i weld ein cyngor ar sut i ymateb i'r materion y mae'r Comisiwn wedi'u nodi.

Withdrawn on 20 October 2020 as it is over 2 years old.

## Rhoi'n fwy diogel i elusennau

Mae'n bwysig i ymgyfarwyddo â'r arferion gorau ym maes codi arian i ddiogelu rhoddion ac unplygrwydd elusennau:

1. Os ydych chi'n rhoi deunyddiau elusennau swyddogol i godwyr arian megis bathodynnau adnabod, tabardau a thuniau, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n casglu popeth cyn gynted â phosibl a gwirio nad yw unrhyw beth yn eisiau neu a yw rhywun wedi ymyrryd ag unrhyw beth.
2. Gwnewch yn siŵr bod trwydded gan y bobl sy'n codi arian ar eich cyfer chi trwy gynnal casgliadau ar y stryd neu o dŷ i dŷ.
3. Dylech ystyried rhoi pecyn gwybodaeth sylfaenol i'ch gwirfoddolwyr ar yr hyn y mae'n rhaid iddynt eu gwneud a pheidio â'u gwneud wrth gasglu ar eich rhan.
4. Os nad yw'ch elusen yn defnyddio casgliadau arian parod neu gasgliadau ar y stryd, dylech roi gwybod i'ch cefnogwyr am hyn a'i egluro ar eich gwefan.
5. Os ydych yn amau bod casglwyr yn casglu'n dwyllodrus yn eich enw chi, cysylltwch â'r heddlu ac Action Fraud.

## Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli yn y sector elusennol

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol ar ein gwaith cydymffurfio ac ymchwilio, **Mynd i'r afael â chamddefnydd a chamreoli**. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at waith y Comisiwn o ran adnabod a rhoi sylw i bryderon mewn elusennau wrth i ni barhau i wneud defnydd gwell o'n pwerau a darparu canllawiau i ymddiriedolwyr i'w helpu i gyflawni eu rolau.

Cadarnhaodd yr adroddiad fod dulliau llywodraethu gwael wrth wraidd llawer o'n gwaith achos y flwyddyn hon, ac mae'n atgoffa darllenwyr nad yw'r weledigaeth strategol, gorchwylio a gwerthuso y mae'r bwrdd ymddiriedolwyr elusen yn eu darparu yn 'ddewis ychwanegol' mewn elusen. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at ochr ragweithiol gynyddol gwaith cydymffurfio'r Comisiwn, a gall elusennau ystyried nifer o'r gwersi a ddysgwyd yn fwy cyffredinol. Mae'r adroddiad llawn, ynghyd â dadansoddiad ystadegol llawn o waith achos y Comisiwn ar gael ar **GOV.UK**.

## Ymgynghori ar yr wybodaeth i'w chasglu ar ffurflen flynyddol 2017

Y ffurflen flynyddol yw'r prif ddull a ddefnyddir gan elusennau i gyfathrebu eu gweithgareddau i'r Comisiwn ac mae'n cynnwys gwybodaeth werthfawr i'r cyhoedd am elusennau. Ym mis Rhagfyr cychwynnwyd **ymgynghoriad cyhoeddus** ar yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu gan elusennau ar ffurflen flynyddol 2017. Mae hyn yn rhan o brosiect dwy flynedd ehangach i adolygu'n sylfaenol yr wybodaeth allweddol rydym yn ei chasglu a'i harddangos gan elusennau.

Mae'r ymgynghoriad yn ystyried sut y gallwn gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i ni allu rheoleiddio'n effeithiol, ysgogi tryloywder cyhoeddus, a chael dealltwriaeth dda o'r sector, ond hefyd i gadw'r baich gweinyddol ar elusennau i'r lleiaf posibl. Gallwch lenwi'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio **arolwg ar-lein** syml ac mae ar agor tan 9 Mawrth 2017.